Ysgol Gyfun Garth Olwg

Prifathro / Headteacher
Mr. Trystan Edwards BSc., C.P.C.P

Campws Cymuned Gartholwg, Y Brif Ffordd / Main Road,
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ 01443 219580 🖷 01443 219596
gweinyddol@gartholwg.cymru
www.gartholwg.cymru

Annwyl ddisgybl,

Nodyn yw hwn i dy wahodd i Gynhadledd y Darpar Chweched fydd yn cael ei chynnal yn y Theatr (yn y Ganolfan Gydol Oes) ar **ddydd Gwener, Mehefin 23ain.**

Mae'n bwysig dy fod yn mynychu'r Gynhadledd os oes <u>unrhyw</u> bosibilrwydd y byddi di am ddod nôl i'r Chweched Dosbarth ym mis Medi – bydd llawer o wybodaeth ddefnyddiol ar gael a bydd cyfle iti wneud cais, ymhlith pethau eraill, i fynd fel Swyddog i Langrannog ar gwrs Blwyddyn 7. Bydd yna gyfle hefyd iti holi athrawon ac aelodau Blwyddyn 12 yn anffurfiol am unrhyw gwestiynau sy'n dy boeni ynglyn â bywyd yn y 6ed dosbarth. Fydd dim angen iti wisgo gwisg ysgol ar gyfer y gynhadledd ond **bydd angen offer ysgrifennu arnat**. **Gwna'n siwr fod gennyt ddillad addas ar gyfer gweithgareddau "corfforol"!**

Os na fedri fynychu'r gynhadledd, cysyllta drwy alwad ffôn gyda Mrs M. Price, Mr Ll. Evans neu Miss M. Thomas ymlaen llaw os gweli'n dda. Byddwn ni'n cwrdd **yn Llyfrgell yr Ysgol i gofrestru am 9.00.** Bydd y diwrnod yn **gorffen am 12.10 p.m.**

Edrychwn ymlaen at dy weld ar y diwrnod!

Miss Menna Thomas
(Arweinydd Cynnydd a lles)

Mr Llŷr Evans
(Arweinydd Cynnydd a Lles)

Campws Cymunedol Gartholwg Community Campus

THE PRINCE'S TEACHING INSTITUTE 2015 RHAGLEN ARWEINYDDIAETH